

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol  
Permanent Secretary's Group



Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol  
Permanent Secretary's Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref:

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Gyfaill

## DAO (Cymru) 02/19 - Trefniadau Galw i Mewn

Fel y gwyddoch, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi bod yn adolygu trefniadau galw i mewn ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd o ran yr amser a'r adnoddau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus eu hunain; ac i ganiatáu i Brif Weithredwyr, yn rhinwedd eu swyddi fel Swyddogion Cyfrifyddu, wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod yn atebol amdanynt.

Mae swyddogion wedi cyfarfod â'r Prif Weinidog yn ddiweddar i drafod y mater hwn, a gwnaeth y Prif Weinidog nifer o awgrymiadau defnyddiol ar gyfer rheoli'r broses o bontio i'r trefniadau newydd. Felly, rydym ni a'r Prif Weinidog wedi cytuno ar drefniadau pontio a fydd yn darparu sicrwydd iddo ef a'r Ysgrifennydd Parhaol na fydd y cam o ddileu'r gweithdrefnau galw i mewn yn peri unrhyw risg i Lywodraeth Cymru, nac ychwaith i'r gwaith o sicrhau bod Rhaglen y Llywodraeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Trefniadau dros dro yw'r trefniadau hyn i roi data llinell sylfaen i Lywodraeth Cymru, er mwyn iddi allu asesu nifer y materion y mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn cael ei drosglwyddo, a chadw golwg ar sut mae pob corff yn gweithredu mewn perthynas â'r trefniadau newydd. Nod y trefniadau pontio yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth gyson ynghylch sut mae'r broses newydd yn gweithio yn ymarferol, yn lle parhau â mecanwaith sy'n golygu bod yn rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



**BUDDSODDWR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Julia.Douch@llyw.cymru  
Gwefan • website: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



Trefniadau diswyddo sy'n seiliedig ar Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil (cyrff sy'n gweithredu cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil)	Pennaeth Cyflogau a Thaliadau Cydnabyddiaeth, a fydd yn ceisio cyngor gan y Gweinidog fel y bo'n briodol.
---	---

### Tabl B Trefniadau Hysbysu Ymlaen Llaw

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu noddwyr am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n dod o fewn y categorïau canlynol, pan fônt yn digwydd, er mwyn i Lywodraeth Cymru gael y cyfle i roi'r cyngor priodol. Os bydd Corff yn penderfynu peidio â dilyn cyngor Llywodraeth Cymru, gall y noddwr uwchgyfeirio'r mater at y Gweinidog, sy'n cadw'r hawl i wrthod derbyn penderfyniad a gymerir gan Gorff Cyhoeddus, os yw hwnnw'n penderfyniad y gwelir, ar ôl ei drafod, na ellir ei gyfiawnhau.

Dylai'r penderfyniadau hyn fod yn destun trafodaeth archwilio diwedd chwarter mewn cyfarfodydd monitro chwarterol.

Penderfyniad	Camau Hysbysu Ymlaen Llaw	Cyngor pellach
<p>Cynigion anarferol, dadleuol, neu a allai gael effeithiau pellgyrhaeddol na ddymunir eu cael, yn ôl Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys y canlynol, er nad yw'r rhestr yn gyflawn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynigion nad ydynt yn rhai safonol ar gyfer y sector</li> <li>Cynigion sy'n wleidyddol sensitif a/neu sy'n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau</li> <li>Cynigion a fyddai'n gallu cael canlyniadau annymunol i'r sefydliad a/neu i'r</li> </ul>	<p>Y noddwr, ar y cyd â'r timau polisi priodol, i baratoi cyngor i'w drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig gan y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Llywodraethu Corfforaethol, ac unrhyw gorff arall sydd ag arbenigedd yn y maes.</p>	<p>Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog, fel y bo'n briodol</p>

<p>sector cyhoeddus yn ehangach</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigion a fyddai'n gallu gosod cynsail ar gyfer y sector ac ar gyfer y sector cyhoeddus yn ehangach</li> </ul>		
<p>Unrhyw gamau gweithredu y mae'r Bwrdd yn ystyried y byddent yn mynd yn groes i'r egwyddorion ar gyfer rheoleidd-dra, priodoldeb, arferion gweinyddu economaidd darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn.</p>	<p>Y noddwr i baratoi cyngor ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol</p>	<p>Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol</p>
<p>Newidiadau i bolisi neu arferion sydd â goblygiadau ariannol eang</p>	<p>Y noddwr i baratoi cyngor ar gyfer y Pennaeth Rheoli Cyllidebau, gan anfon copi i'r Uned Cyrff Cyhoeddus</p>	<p>Y Gweinidog, fel y bo'n briodol</p>
<p>Taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer staff, ynghyd â'u telerau ac amodau.</p>	<p>Y noddwr i gyflwyno cynigion i'r Pennaeth Cyflogau a Thaliadau Cydnabyddiaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• newidiadau sydd y tu allan i gwmpas egwyddorion cyflogau sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru;</li> <li>• newidiadau i'r strwythur sefydliadol sy'n debygol o arwain at ddiswyddo staff</li> </ul>	<p>Y Gweinidog, fel y bo'n briodol</p>
<p>Unrhyw beth a allai</p>	<p>Y noddwr i ystyried</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid</p>

effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ee pwysau posibl ar y gyllideb neu danwario	Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol
---	---------------------------------------

### **Trefniadau Hysbysu Eraill**

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai'r Prif Swyddogion Gweithredol roi gwybod i noddwyr yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau eraill y maent wedi eu gwneud, neu'n debygol o'u gwneud yn ystod y chwarter nesaf, a fyddai wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

### **Presenoldeb Swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd Bwrdd.**

Hefyd, mae'r swyddogion wedi bod yn trafod â'r Prif Weinidog y mater o bresenoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd Bwrdd. Er bod y gofyniad ar noddwyr i fynychu cyfarfodydd Bwrdd wedi cael ei ddileu (ac eithrio mewn achosion cwmnïau y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt), bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i fynychu cyfarfodydd Bwrdd os byddant am roi cyngor neu godi pryderon am unrhyw fater. Felly dylid sicrhau bod y noddwr yn cael copïau o agendâu a phapurau mewn da bryd. Yn achos cwmnïau y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt, rhaid i swyddog Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd Bwrdd ar ran Gweinidogion gan eu bod yn gyfranddaliwr.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Cofion gorau,

Julia

**Julia Douch**  
**Rheolwr Gweithredu ar gyfer Cyrff Cyhoeddus**